Archwilio Cymru
Audit Wales

# Pennu Amcanion Llesiant: Medr – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil


Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4969A2025

# Cynnwys


Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant .... 3

Cynnal ein harchwiliad yn Medr .... 4

Sut a phryd y gwnaeth Medr bennu ei amcanion llesiant .... 5

Yr hyn a ganfuom .... 6

Fe wnaeth Medr gofleidio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i helpu i ddatblygu ei amcanion llesiant cyntaf, er bod gwaith i'w wneud i sicrhau bod ei adnoddau'n cyd-fynd â hwy i roi cymorth i'w cyflawni a nodi mesurau o'r effaith .... 6

Argymhellion .... 11

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano .... 13

# Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 56 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at gyrraedd pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf[1]. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant[2]. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn[3].

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I gyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal[4].

4 Fe wnaethom ddylunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut y gallai da edrych.

5 Medr – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru – yw'r corff mwyaf newydd i gael ei greu sy'n dod dan y Ddeddf. Daeth Medr yn weithredol ar 1 Awst 2024 yn dilyn cyfnod o waith datblygu cychwynnol[5].

6 Mae Medr yn cyllido ac yn rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys addysg bellach, addysg uwch – gan gynnwys ymchwil ac arloesi, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, a chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Fe etifeddodd Medr swyddogaethau a staff gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sydd bellach wedi'i ddiddymu. Fe wnaeth hefyd ysgwyddo rhai swyddogaethau a arferai gael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau un flwyddyn cyn un o etholiadau'r Senedd ac yn diweddu un flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad canlynol y Senedd.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[5] Crëwyd Medr trwy Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Fe'i sefydlwyd yn ffurfiol ar 4 Medi 2023 ac fe ddechreuodd waith paratoawl yn dilyn penodi ei Fwrdd.

# Cynnal ein harchwiliad yn Medr

7 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- darparu sicrwydd ynghylch y cwestiwn i ba raddau y gwnaeth Medr gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant; ac
- adnabod cyfleoedd i Medr wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

8 Roeddem yn amcanu at ateb y cwestiwn ar y cyfan, 'i ba raddau y mae Medr wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd'. Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A gafodd y broses a sefydlodd Medr i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw Medr wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw Medr wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?

9 Fe wnaethom drafod amseriad yr archwiliad gyda Medr, ac fe wnaethom deilwra'r modd y cyflawnwyd yr archwiliad i adlewyrchu ei amgylchiadau. Fe gymerom ni'r cyfle i gynnal yr archwiliad mewn 'amser real', tra'r oedd Medr yn datblygu ei amcanion llesiant. Fe wnaeth hyn ein galluogi i:

- arsylwi ar rannau allweddol o'r broses, gan gynnwys yn y cyfnod cyn iddo ddod yn weithredol;
- cael mewnwelediad a thystiolaeth archwilio a oedd yn werthfawr; a
- rhannu canfyddiadau cynnar tra'r oedd y broses yn dal yn 'fyw'.

10 Fe gasglom ni'r rhan fwyaf o'n tystiolaeth rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Hydref 2024. Roedd hyn yn cynnwys:

- adolygu dogfennau allweddol;
- cyfweld â staff allweddol; ac
- arsylwadau mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal ag yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac uwch aelodau o staff.

11 Nid oedd hwn wedi'i fwriadu i fod yn archwiliad manwl. Roeddem yn sensitif i'r pwysau ehangach yr oedd Medr yn eu hwynebu ar y pryd. Fe wnaethom gadw ffocws tynn ar ein cwestiynau archwilio a defnyddio dull cymesur o gasglu ein tystiolaeth. Fe wnaeth canfyddiadau o'r gwaith hwn oleuo ein hadroddiad diweddar ar roi'r Ddeddf ar waith ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru[6].

[6]Archwilydd Cyffredinol Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ebrill 2025

# Sut a phryd y gwnaeth Medr bennu ei amcanion llesiant

12 Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn nodi 11 o ddyletswyddau strategol i Medr. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau ar gyfer y sector[7]. Fe wnaeth y dyletswyddau strategol a'r datganiad o flaenoriaethau nodi uchelgeisiau hirdymor y Llywodraeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi.

13 Roedd hi'n ofynnol i Medr baratoi cynllun strategol i ymateb i'r dyletswyddau strategol a'r datganiad o flaenoriaethau. Fe benderfynodd ddwyn ei ofynion cynllunio allweddol ynghyd trwy ymgorffori ei amcanion llesiant yn y cynllun strategol a phennu'r ddogfen honno fel ei 'ddatganiad llesiant'[8].

14 Cyflwynodd Medr ei gynllun strategol i Weinidogion Cymru i gael ei gymeradwyo erbyn y terfyn amser gofynnol ym mis Rhagfyr 2024. Wedyn fe gyhoeddodd y cynllun ym mis Mawrth 2025.

15 Mae'r cynllun strategol yn nodi cyfres o nodau, sydd hefyd yn gweithredu fel amcanion llesiant Medr (**Arddangosyn 1**). Ceir un 'nod sefydlu', sy'n canolbwyntio ar Medr fel sefydliad, a phum 'nod strategol' sydd â ffocws mwy allanol.

**Arddangosyn 1: Nodau strategol ac amcanion llesiant Medr hyd at 2030**

| |
|---|
| Nod Sefydlu: Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo. |
| Nod Strategol 1: Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr. |
| Nod Strategol 2: Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid. |
| Nod Strategol 3: Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus. |

[7] Llywodraeth Cymru, Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi, Chwefror 2024

[8] Mae Adran 7 (1) (c) y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad wrth gyhoeddi amcanion llesiant, a adwaenir fel 'datganiadau llesiant'. Rhaid i'r datganiadau hyn gynnwys gwybodaeth benodol, megis y camau y mae cyrff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Nod Strategol 4: Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.

Nod Strategol 5: Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffynhonnell: Medr, Cynllun Strategol 2025-2030, Mawrth 2025

# Yr hyn a ganfuom

## Fe wnaeth Medr gofleidio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i helpu i ddatblygu ei amcanion llesiant cyntaf, er bod gwaith i'w wneud i sicrhau bod ei adnoddau'n cyd-fynd â hwy i roi cymorth i'w cyflawni a nodi mesurau o'r effaith

### Y broses ar gyfer pennu amcanion llesiant

#### Y broses gynllunio

16 Cydnabu Medr fod ganddo gyfle unigryw i wreiddio'r Ddeddf yn y sefydliad o'r dechrau un. Mae wedi gwneud ei amcanion llesiant yn ganolog i'w gynllun strategol cyntaf, i helpu i sicrhau eu bod yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y sefydliad ac yn llywio gweithgarwch yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu canllawiau statudol ac arfer da.

17 Mae'n amlwg bod Medr wedi mynd ati i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cynllun strategol. Cydnabu y byddai gwneud hyn yn her, o ystyried yr amserlen statudol dynn a galwadau ehangach sylfaenu sefydliad newydd. I helpu i reoli hyn, defnyddiodd ddull rheoli prosiect ac fe ddaeth â chapasiti allanol i mewn i helpu i baratoi'r cynllun.

18 Mae Medr i'w weld yn awyddus i'w sefydlu ei hun fel sefydliad sy'n gwrando ac yn dysgu. Nid yw eto wedi datblygu modd i ddysgu o'r ffordd y cymhwysodd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a gwella hynny. Fodd bynnag, roedd y ffordd yr ymgysylltodd â'n gwaith ni ar adeg brysur yn dangos awydd i ddysgu a gwella.

**Ymgynghori a chynnwys**

19 Fe geisiodd Medr ymgysylltu â'r bobl yr oedd yn rhagweld y byddent yn rhan o'i staff fel y cam cyntaf wrth ddatblygu ei amcanion llesiant. Gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2023 cyn iddo gael ei sefydlu'n ffurfiol, fe gynhaliodd Medr sesiynau i helpu i siapio gweledigaeth, gwerthoedd ac amcanion llesiant drafft a ddatblygwyd yn wreiddiol gan yr arweinwyr. Wedyn fe gymerodd amser i ddangos sut yr oedd wedi ystyried adborth.

20 Fodd bynnag, roedd ymgysylltu â staff yn gryn her yn ystod y cyfnod hwn. Nid oedd gan Medr fecanweithiau ymgysylltu ffurfiol ac nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cynnwys yn cael eu cyflogi gan Medr ei hun ar y pryd, ond yn hytrach gan CCAUC neu Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, nid oedd penderfyniad wedi cael ei wneud ynglŷn â phwy yn union fyddai'n trosglwyddo o Lywodraeth Cymru.

21 Roedd Medr yn cydnabod y gallai fod wedi cryfhau ac ehangu ymgysylltiad â staff, er gwaethaf y cyfyngiadau. Byddai wedi hoffi ymgysylltu ymhellach â staff cyn ymgynghori'n allanol ar y cynllun strategol drafft ym mis Medi 2024 a chytuno wedyn ar y cynllun terfynol ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, roedd pwysau o ran amser ar gyfer cymeradwyo'n derfynol, ynghyd â gweithgarwch recriwtio parhaus, yn golygu nad oedd yn gallu blaenoriaethu hyn.

22 Fe wnaeth Medr drafod ei amcanion llesiant drafft gyda chynrychiolwyr undebau llafur, unwaith yr oedd y cynrychiolwyr hynny yn eu lle o fis Medi 2024. Mae ei gynllun strategol yn nodi ei fod wedi dod i gonsensws gyda'i undebau llafur ynghylch yr amcanion[9], ac mae'n nodi ei ymrwymiad i 'wreiddio partneriaeth gymdeithasol ystyrlon' yn ei ddiwylliant a'i arferion gweithio.

23 Roedd Medr hefyd yn ymrwymedig i glywed gan randdeiliaid allanol. Bu'n rhagweithiol o ran cychwyn sgwrs gyda chynrychiolwyr o sefydliadau ar draws y sector cyn lansio'r sefydliad yn ffurfiol, gan gynnal digwyddiadau ymgysylltu ym mis Gorffennaf 2024 yng Ngogledd a De Cymru yr oedd dros 150 o bobl yn bresennol ynddynt. Yn ystod y digwyddiadau hyn, fe arweiniodd Medr sgwrs am addysg drydyddol, ac fe geisiodd farn pobl ynglŷn â'r rôl y gall ei chyflawni ac ynglŷn â'i amcanion llesiant drafft.

24 Ar ôl y digwyddiadau hyn fe gynhaliodd Medr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cynllun strategol a'r amcanion llesiant drafft, a hynny yn ystod mis Medi a mis Hydref 2024. Cafodd Medr 101 o ymatebion. Roedd wedi bwriadu cynnal asesiad pellach i ganfod i ba raddau yr oedd yr ymatebion yn cynrychioli'r sector, ond oherwydd galwadau eraill nid oedd yn gallu gwneud hynny. Nododd na chafwyd unrhyw ymatebion oddi wrth golegau chweched dosbarth Saesneg ac y byddai'n bwysig clywed ganddynt yn y dyfodol.

25 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, fe wnaeth Medr hefyd roi comisiwn i gwmni ymchwil annibynnol i ymgysylltu â dysgwyr ar draws y sector trydyddol. Cynhaliodd yr

[9] O dan adran 16 Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, mae'n ofynnol i Medr, hyd y bo'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawd gyda'i undebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gyda chynrychiolwyr eraill ei staff ynghylch ei amcanion llesiant.

ymchwilwyr bum grŵp ffocws ar-lein gyda sampl fach o ddysgwyr o amryw rannau o'r sector addysg drydyddol. O ystyried graddfa gyfyngedig yr ymarfer hwn, nid yw Medr yn gallu dweud ei fod wedi cyrraedd amrywiaeth y boblogaeth dysgwyr.

26 Er ei fod yn beth cadarnhaol bod Medr wedi ceisio clywed gan ddysgwyr, mae'n cydnabod y gallai ehangu ar hyn. Mae hefyd wedi adnabod yr angen i ymgysylltu â 'darpar ddysgwyr'. Mae cynnwys dysgwyr cyfredol, ac yn enwedig darpar ddysgwyr, yn gryn her o ystyried ehangder addysg ôl-16 ledled Cymru. Mae Medr yn bwriadu datblygu mecanweithiau ymgysylltu newydd, i'w alluogi i glywed gan grwpiau allweddol yn barhaus. Bydd hyn yn cynnwys fforwm llais y dysgwr.

27 Cynhaliodd Medr un sesiwn ymgysylltu â chyflogwyr hefyd. Mae nifer y cyflogwyr posibl y gallai Medr ymgysylltu â hwy'n helaeth. Bydd hi'n bwysig i Medr ystyried sut y mae'n ymgysylltu'n effeithiol ag ystod gynrychioliadol o gyflogwyr yn y dyfodol. Mae cynllun strategol Medr yn nodi ymrwymiadau sy'n disgrifio ei fwriad i weithio gyda chyflogwyr.

**Ffynonellau tystiolaeth eraill**

28 Fe wnaeth Medr adolygu peth tystiolaeth allanol i helpu i oleuo ei amcanion llesiant. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, asesiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o anghenion y boblogaeth, ac adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru[10]. Adnabu'r ymarfer rai themâu perthnasol. Er enghraifft, yr angen i ymateb i'r galw am ddarpariaeth Gymraeg a phoblogaeth sy'n newid, a adlewyrchir mewn agweddau ar gynllun strategol Medr.

29 Cyfyngwyd ar adolygiad Medr o dystiolaeth allanol gan ddiffyg capasiti dadansoddi. I helpu i ddatblygu ei sylfaen dystiolaeth, roedd ymgynghoriad Medr yn gofyn i randdeiliaid adnabod tystiolaeth arall y gallai ei defnyddio i oleuo ei gynllun strategol a'i amcanion llesiant. Dywedodd 83% o'r ymatebwyr fod tystiolaeth ychwanegol yr oedd angen ei hadlewyrchu yn y cynllun. Roedd y ffynonellau a awgrymwyd yn cwmpasu themâu megis gwybodaeth well am anghenion yn y dyfodol o ran sgiliau a'r gweithlu ar draws yr economi, ac am yr heriau a'r galwadau yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar ddysgwyr. Er nad yw'n glir sut yn union y gwnaeth y ffynonellau tystiolaeth hyn siapio'r cynllun ymhellach, mae'n cyfeirio at themâu perthnasol.

30 Mae Medr yn bwriadu estyn a gwella ei sylfaen dystiolaeth wrth iddo ehangu ei gapasiti ymchwil ac ystadegol. Mae'n cydnabod y bydd hyn yn helpu i oleuo adolygiadau o'r cynllun strategol a'r amcanion llesiant yn y dyfodol (gweler **paragraff 37**).

## Cynllunio i wella llesiant

31 Mae Medr wedi sicrhau bod ei amcanion llesiant yn adlewyrchu'r disgwyliadau a gofynion ehangach a osodir arno. Mae wedi sicrhau bod yr amcanion yn cyd-fynd

[10] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, 2021

â'r dyletswyddau strategol a amlinellir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Datganiad o Flaenoriaethau'r Gweinidogion (gweler **paragraff 12**).

32 Dengys cyfeiriadau yn y cynllun strategol fod Medr yn meddwl am sut y gall gael effaith eang ar lesiant Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys sut y mae Medr yn bwriadu:

- helpu i feithrin 'diwylliant bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu';
- hybu cyfle cyfartal a chefnogi datblygiad cymunedau cydlynus; a
- chefnogi economi gynhyrchiol a rhoi cymorth i ddarparu'r sgiliau gwyrdd y bydd eu hangen yn y dyfodol.

33 Mae Medr hefyd wedi ystyried y cysylltiadau rhwng ei amcanion llesiant ac amcanion rhai rhanddeiliaid penodol. Fe wnaeth fwrw golwg ar amcanion llesiant rhai cyrff cenedlaethol eraill a gwmpesir gan y Ddeddf i adnabod tir cyffredin. Mae hefyd wedi ystyried amcanion strategol y gwahanol gomisiynwyr yng Nghymru nas cwmpesir gan y Ddeddf[11].

34 Fodd bynnag, mae gan Medr lawer o randdeiliaid eraill, yn nodedig ar draws y sector addysg drydyddol ond nid dim ond y rheiny. Bydd hi'n bwysig i Medr ystyried sut y gall ddeall ac archwilio amryw amcanion a blaenoriaethau sefydliadau eraill mewn ffordd gymesur a dichonadwy. Gellid gwneud hyn, er enghraifft, fel rhan o ymgysylltu ac ymgynghori ac nid dim ond trwy ymchwil ddesg[12].

35 Mae Medr wedi bod yn glir ei bod hi'n ddyddiau cynnar a'i fod yn dal i ganfod sut i ymateb i'r heriau y mae'n eu hwynebu, yn ogystal â chynyddu i'r eithaf y cyfleoedd o ganlyniad i ddwyn swyddogaethau ynghyd ar draws addysg ôl-16. Er enghraifft, mae'n ystyried sut y gall gydgysylltu gwaith i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a beth allai manteision dull mwy trawsbynciol fod. Mae Medr hefyd yn ymwybodol y bydd angen iddo egluro sut y mae'n berthnasol i rannau eraill o'r system, gan gynnwys rhai rhannau o Lywodraeth Cymru â chyfrifoldebau cysylltiedig.

36 Gyda Medr yn dal i archwilio sut orau i gyflawni ei rôl, mae wedi mynegi'r effaith y mae'n ceisio ei chael ar gyfer y tymor hir, gan roi ffocws ar y camau gweithredu cychwynnol y mae angen iddo eu cymryd. Mae'r cynllun strategol yn nodi:

- 'Ymrwymiadau sefydlu', a fydd yn cael eu blaenoriaethu dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r rhain yn adlewyrchu statws Medr fel sefydliad newydd a'r angen am 'bontio esmwyth'.
- 'Ymrwymiadau twf', sydd â gorwel amser o bum mlynedd. Bydd gwaith mwy cyfyngedig yn dechrau ar y rhain, i baratoi'r ffordd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol

37 Mae'n beth cadarnhaol bod Medr wedi nodi'r cyfeiriad teithio dros y tymor hwy, gan hefyd ganolbwyntio ar gamau byrdymor angenrheidiol. Mae Medr yn ystyried mai

[11] Y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, Comisiynydd y Gymraeg, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

[12] Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dwyn ynghyd amcanion llesiant cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf (nad ydynt yn cynnwys cyrff addysg drydyddol). Gall swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu'r wybodaeth hon ar gais.

dogfen drosiannol yw'r cynllun strategol cyntaf hwn, y mae'n debygol o'i adolygu yn 2027. Efallai y bydd angen hefyd i Medr adolygu'r cynllun strategol mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn y datganiad o flaenoriaethau'r Gweinidogion yn dilyn etholiad nesaf y Senedd ym mis Mai 2026.

## Cyflawni'r amcanion llesiant

38 Ar adeg ein gwaith maes, roedd Medr yn datblygu cynllun gweithredol[13] i nodi'r camau mwy manwl y bydd yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae canllawiau'n nodi rolau a chyfrifoldebau staff o ran poblogi, cyflawni ac adrodd yn erbyn y cynllun. Yn ddefnyddiol, mae'r templed ar gyfer y cynllun yn cynnwys gwybodaeth allweddol, megis graddfeydd amser ar gyfer cyflawni ac adnoddau y mae eu hangen, sy'n cwmpasu cyllid, capasiti a sgiliau.

39 Mae Medr hefyd yn bwriadu i'w gynllun gweithredol nodi sut y bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni pob gweithgaredd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad eglur i weithio gydag eraill i gyflawni ei amcanion llesiant, a fynegir yn ei gynllun strategol.

40 Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd Medr eto wedi datblygu cynllun ariannol strategol na chynllun strategol y gweithlu ar wahân. Wrth wneud hynny, bydd hi'n bwysig i Medr ystyried y tymor canolig ac, yn ddelfrydol, y tymor hwy, gan sicrhau bod unrhyw strategaethau o'r fath yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr amcanion yn gyraeddadwy. Dylai hefyd oleuo penderfyniadau ynglŷn â mynd ati fesul cyfnod i ddatblygu gwaith ar yr ymrwymiadau twf ac ynglŷn ag unrhyw waith i ddiweddaru ei gynllun strategol yn 2027.

## Monitro'r amcanion llesiant

41 Nid yw Medr wedi nodi mesurau i gyd-fynd â'i amcanion llesiant yn ei gynllun strategol eto. Mae o'r farn y bydd adnabod mesurau llwyddiant strategol priodol sy'n adlewyrchu ei ystod lawn o weithgareddau ar draws addysg drydyddol yn cymryd amser. Mae Medr wedi ymrwymo i sefydli data sylfaenol a dylunio fframwaith mesurau i'w alluogi i ddeall y cynnydd y mae'n ei wneud yn y tymor byr a'i effaith dros y tymor hwy.

42 Mae Medr wedi dechrau gwaith ar y fframwaith mesurau trwy ddatblygu ei gynllun gweithredol. Mae'r templed ar gyfer y cynllun gweithredol yn ysgogi staff i adnabod:

- yr allbynnau sy'n cyfleu 'beth' sy'n cael ei gyflawni; a hefyd
- y deilliannau y gobeithir y byddant yn cyfrannu atynt trwy weithgareddau penodol neu grwpiau penodol o weithgareddau[14].

[13] Medr, Cynllun Gweithredol 2025-26, Mehefin 2025

[14] Bydd yr wybodaeth am allbynnau a deilliannau ar gyfer defnydd mewnol ac ni fydd yn cael ei chynnwys yn y cynllun gweithredol a gyhoeddir.

43 Mae gan Medr ddiddordeb hefyd mewn deall y berthynas rhwng y deilliannau y mae'n bwriadu eu cyflawni a llesiant ehangach Cymru. Mae'r templed ar gyfer y cynllun gweithredol yn ysgogi staff i adnabod y dangosyddion cenedlaethol[15] y bydd ei weithgareddau'n cyfrannu atynt. Nid yw'n glir eto sut y bydd yr elfennau hyn yn dod ynghyd yn y fframwaith mesurau. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol gweld y pwyslais y mae Medr yn ei roi ar ddeall y gwahaniaeth y mae'n ei wneud.

44 Ar yr adeg hon, mae'r ffocws ar adnabod mesurau i'w defnyddio yn y dyfodol, yn hytrach nag adrodd arnynt yn y tymor byr. Nid yw Medr yn disgwyl i'r fframwaith mesurau fod yn ei le cyn iddo ddiweddaru ei gynllun strategol yn 2027. Yn lle hynny, bydd Medr yn adrodd ar gynnydd o ran cyflawni pob gweithgaredd yn ei gynllun gweithredol. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Bwrdd yn chwarterol. Bydd hefyd yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd atebolrwydd chwarterol.

45 Fodd bynnag, gall fod potensial i asesu effaith yn y cyfamser, er enghraifft trwy ddata ansoddol neu drwy ddefnyddio rhai setiau data a etifeddwyd gan sefydliadau etifeddol. Efallai y bydd Medr yn gallu adnabod setiau data interim wrth iddo fynd trwy'r broses o ddwyn ynghyd fesurau i'w defnyddio yn y dyfodol yn y fframwaith mesurau. Byddai hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i oleuo ei waith arfaethedig tebygol i ddiweddaru'r cynllun strategol yn 2027.

## Argymhellion

A1 Gan adeiladu ar waith a wnaed yn barod, dylai Medr geisio barn fwy helaeth gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr, darpar ddysgwyr a chyflogwyr, wrth adolygu ei amcanion llesiant a phennu rhai yn y dyfodol.

Wrth wneud hynny, dylai geisio sicrhau ei fod yn gallu tynnu ar farn sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth. Mae hyn yn debygol o gynnwys tynnu ar y rhwydweithiau rhanddeiliaid y mae wedi ymrwymo i'w sefydlu (gweler **paragraffau 23 i 27**).

A2 Dylai Medr ddatblygu modd mwy cynhwysfawr i ddeall amcanion ystod ehangach o bartneriaid a'u perthynas â'i amcanion llesiant ei hun. Rydym yn cydnabod y bydd angen i Medr ystyried beth sy'n ddichonadwy ac yn gymesur, o ystyried ehangder ei sylfaen rhanddeiliaid (gweler **paragraffau 33 a 34**).

[15] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol, Medi 2022

A3 Wrth i Medr ddatblygu ei gynllun ariannol strategol a chynllun strategol y gweithlu, dylai ystyried y tymor canolig ac, yn ddelfrydol, y tymor hwy a sicrhau bod unrhyw strategaethau o'r fath yn cyd-fynd â'i gynllun strategol.

Dylai gwneud hynny helpu i oleuo penderfyniadau ynglŷn â mynd ati fesul cyfnod i ddatblygu gwaith ar yr ymrwymiadau twf ac ynglŷn â gwaith i ddiweddaru ei gynllun strategol yn 2027 (gweler **paragraff 40**).

A4 Tra bo Medr yn datblygu fframwaith mesurau newydd gyda'r bwriad o'i gyflwyno yn 2027, dylai ystyried a all ddefnyddio data ansoddol neu setiau data a etifeddwyd gan sefydliadau etifeddol i adrodd stori am ei berfformiad a'i effaith yn nwy flynedd gyntaf ei gynllun strategol a'i amcanion llesiant (gweler **paragraffau 41 i 45**).

# Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a’r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae’r tabl isod yn nodi’r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i roi arweiniad i’n proses o gasglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi’u defnyddio’n flaenorol yn ein harchwiliadau o roi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac a oleuwyd gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw’r rhestr hon, ond yn hytrach set enghreifftiol o nodweddion sy’n disgrifio sut allai da edrych.

| **I ba raddau y mae’r corff wedi gweithredu’n unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?** |
| --- |
| **Cynllunio: A gafodd y broses a sefydlodd y corff i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?** |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi defnyddio data a chudd-wybodaeth arall i ddeall angen, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?** | • Mae gan y corff asesiad eglur a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i oleuo dealltwriaeth y corff am y 'sefyllfa fel y mae' / angen byrdymor.<br>• Mae'r corff wedi pennu amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda am angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae hyn yn debygol o ddod o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Asesiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r boblogaeth<br>– Canlyniadau ymarferion cynnwys/ymgynghori lleol<br>– Monitro gwasanaethau a chwynion am wasanaethau<br>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br>– Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR) ac Asesiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau er mwyn iddo allu ymdrin â chylchoedd negyddol a heriau rhwng y cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i helpu i ddethol ei amcanion llesiant. Mae'r gweithgarwch cynnwys hwnnw – boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae cynnwys yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig am sut y mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar yr hyn/yn berthnasol i'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi dylunio'r amcanion i gyflawni manteision tymor hwy, ynghyd â diwallu anghenion byrdymor?** | • Mae'r corff wedi pennu amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u bwriadu i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r amcanion wedi'u bwriadu i ddiwallu anghenion yn y tymor byr a hwy. Lle pennwyd amcanion dros ffrâm amser fer a chanolig, maent wedi'u pennu yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |
| **Darparu adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion llesiant?** | • Dyrannwyd adnoddau i sicrhau bod yr amcanion yn gallu cael eu cyflawni dros y tymor byr a chanolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau a risgiau tymor hwy, a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i gyflawni manteision ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion hwythau?** | • Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a threfniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall wireddu uchelgeisiau trawsbynciol. |
| **Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?** | |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?** | • Mae mesurau perfformiad wedi'u bwriadu i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. trwy ganolbwyntio ar ddeilliannau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac yn cyflawni manteision lluosog (gan gynnwys rhai ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Ceir 'edefyn aur' a fydd yn galluogi'r corff i adrodd yn eglur a thryloyw ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion. |
| **A yw'r corff yn ceisio dysgu o sut a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon a ffordd sy'n cael effaith gref.<br>• Mae'r corff wedi dysgu o bennu amcanion llesiant blaenorol ac o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.<br>• Mae'r corff wedi neu'n bwriadu myfyrio ynghylch sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o ran pennu amcanion llesiant. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.